# Dyfarniad Rheoleiddiol

### Mawrth 2023

### Grŵp Cynefin – L029

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid | | |
|---|---|---|
| Ddim yn cydymffurfio | **Oren** | Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio yn rhannol ac nid yw'n debygol o fedru gwneud y gwelliannau gofynnol heb ymyrraeth reoleiddiol. |
| **Hyfywedd Ariannol** | | |
| Cydymffurfio | **Melyn** | Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio yn rhannol ac mae ganddi'r potensial i fedru gwneud y gwelliannau gofynnol o gael rhagor o oruchwyliaeth reoleiddiol. |

**Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid**

Mae Grŵp Cynefin wedi cofnodi ohono'i hun fod risgiau a phryderon sylweddol mewn perthynas â llywodraethu a gwasanaethau tenantiaid, yn benodol mewn perthynas â sicrwydd o ran cydymffurfio, gan gynnwys diogelwch statudol a Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae angen ymyrraeth reoleiddiol er mwyn sicrhau bod Grŵp Cynefin yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd o ran y safonau rheoleiddio, sy'n cael eu rhestru isod. Mae'r gwelliannau y mae angen eu gwneud yn cael eu rhestru hefyd. Mae'r Rheoleiddiwr yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas i ddatblygu/gytuno ar gynllun gwella a fydd yn cynnwys adolygiadau annibynnol o sut y mae'n cael ei harwain a'i llywodraethu ar lefel y Weithrediaeth ac ar lefel y Bwrdd, ac a fydd hefyd yn mynd ati'n ddiymdroi i sicrhau gwelliannau o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Bydd disgwyl i'r Gymdeithas roi arwydd ffurfiol o'i hymrwymiad i'r cynllun gwella y cytunir arno a hefyd o'i hymrwymiad i roi'r cynllun hwnnw ar waith.

**Hyfywedd Ariannol**

Mae'r Gymdeithas yn bodloni'r profion hyfywedd ariannol. Fodd bynnag, bydd angen mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol wrth i oblygiadau ariannol y rhaglen wella gael eu hasesu.

**Sylwer** – Adroddiad eithriadau yw hwn. Os oes unrhyw bryderon rheoleiddiol, bydd y safon reoleiddio, ynghyd â'r gwelliannau sydd eu hangen, yn cael eu rhestru. Os nad oes unrhyw safonau rheoleiddio yn cael eu rhestru, nid oes unrhyw bryderon rheoleiddiol sylweddol ar hyn o bryd.

| | Safon Reoleiddio |
|---|---|
| SR1 | **Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol.<br>• Mae'n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg a, lle y bo'n briodol, barn tenantiaid.<br>• Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol perthnasol ac yn cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud ag achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio. |
| SR2 | **Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae ganddo fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i nodi a rheoli risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai ei atal rhag cyflawni ei strategaeth neu gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol.<br>• Nid yw'n rhoi asedau tai cymdeithasol na thenantiaid mewn perygl gormodol. |
| SR3 | **Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw achosion o danberfformio neu ddiffyg cydymffurfio â materion iechyd a diogelwch landlordiaid. |
| SR4 | **Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Gall ddangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw achosion o danberfformio. |
| SR8 | **Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae ganddo ddealltwriaeth gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau. |

**Sylwer** – Adroddiad eithriadau yw hwn. Os oes unrhyw bryderon rheoleiddiol, bydd y safon reoleiddio, ynghyd â'r gwelliannau sydd eu hangen, yn cael eu rhestru. Os nad oes unrhyw safonau rheoleiddio yn cael eu rhestru, nid oes unrhyw bryderon rheoleiddiol sylweddol ar hyn o bryd.

<table>
<tr><td></td><td><ul><li>Mae’n defnyddio gwybodaeth gywir am asedau a rhwymedigaethau i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>SR9</td><td>Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel<br>O ran y landlord cymdeithasol:<ul><li>Mae’n sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn cydymffurfio â'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddir mewn perthynas ag ansawdd llety, gan gynnwys y Safon Ansawdd Tai Cymru gyfredol.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Y Gwelliannau sydd eu hangen<br>Rhaid i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth:<ul><li>Sicrhau eu bod yn meddu ar yr ystod o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol fel eu bod yn cyflawni diben a gwerthoedd craidd y busnes, a bod eu diwylliant a’u hymddygiad yn briodol ar gyfer gwneud hynny.</li><li>Darparu tystiolaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ddogfennau llywodraethu a'r Cod Llywodraethu a fabwysiadwyd.</li><li>Sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn seiliedig ar yr wybodaeth fwyaf diweddar, gywir a chynhwysfawr, a’i fod yn ystyried opsiynau/argymhellion ac yn manteisio ar gyngor arbenigol os oes angen.</li><li>Cydymffurfio'n llawn â'r Fframwaith Rheoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) gydreoleiddio, i fod yn agored am y risgiau, y problemau a’r heriau a nodir ganddynt, ac am sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r rheini. Rhaid i’r LCC godi materion perthnasol gyda’r Rheoleiddiwr yn ddiymdroi.</li><li>Sefydlu fframwaith sicrwydd a rheoli risg sy'n effeithiol ac y gellir dibynnu arno i roi'r lefel o sicrwydd y mae ei angen ar y Bwrdd ar draws y busnes. Rhaid i’r fframwaith hwnnw gynnwys y materion a ganlyn, ond ni ddylid ei gyfyngu i’r materion hyn yn unig: cydymffurfiaeth ar draws y busnes, sicrhau nad yw asedau a thenantiaid yn wynebu risg amhriodol, a bod modd mynd ati ar fyrder i gywiro tanberfformiad o ran diogelwch tenantiaid.</li><li>Darparu tystiolaeth i ddangos bod safbwyntiau amrywiol y tenantiaid yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ac adolygu gwasanaethau, eu bod yn cael eu cydnabod a bod y sefydliad yn ymateb i danberfformiad.</li><li>Darparu tystiolaeth i ddangos bod penderfyniadau strategol perthnasol a phenderfyniadau ariannol cysylltiedig yn cael eu llywio gan wybodaeth gyfredol am asedau a rhwymedigaethau, adolygu’r dystiolaeth er mwyn rhoi sicrwydd manwl bod pob cartref yn bodloni Safon gyfredol Ansawdd Tai Cymru a bod y Gymdeithas yn mynd i’r afael yn effeithiol â pheryglon a nodir o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS).</li></ul></td></tr>
</table>

Yn ogystal â’r oruchwyliaeth arferol, bydd y Rheoleiddiwr am gael sicrwydd rheoleiddiol ychwanegol am y materion a ganlyn:

**SR1**
- Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy’n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol.

**SR3**
- Mae’n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid.
- Mae'n sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad y landlord ar gael i denantiaid.

**SR4**
- Mae'n galluogi tenantiaid i ddeall dull y sefydliad o gynnwys tenantiaid, sut y gallant gymryd rhan a sut y bydd y sefydliad yn gwrando ar adborth gan denantiaid ac yn gweithredu arno, ac yn dysgu o gwynion.
- Mae'n rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon arno ac yn gallu dangos y gwahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud.

**SR7**
- Mae’n gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a'i ddiben cymdeithasol, ac yn cyflwyno adroddiadau priodol i'r Bwrdd ynghylch y cynlluniau hyn.
- Mae’n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn.

**Grŵp Cynefin: Proffil**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **4,139** |
| **Trosiant Blynyddol y Grŵp** | **£30.8m** |
| **Cymhareb Gerio** | **35%** |
| **Sicrwydd Yswiriant** | **144%** |
| **Math o LCC** | **Traddodiadol** |
| **Daearyddiaeth** | **Y Gogledd** |

*Y ffigurau ar gyfer 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd, sydd i’w gweld yn y tabl.*

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-80535-664-6
Hawlfraint y Goron 2023

**Sylwer** – Adroddiad eithriadau yw hwn. Os oes unrhyw bryderon rheoleiddiol, bydd y safon reoleiddio, ynghyd â'r gwelliannau sydd eu hangen, yn cael eu rhestru. Os nad oes unrhyw safonau rheoleiddio yn cael eu rhestru, nid oes unrhyw bryderon rheoleiddiol sylweddol ar hyn o bryd.